
## Beth fydd yn digwydd unwaith rydw i wedi lleisio pryder?

Efallai y bydd rhywun yn y man y cawsoch chi eich triniaeth am siarad â chi am beth ddigwyddodd. Peidiwch poeni, gall ffrind, perthynas neu eiriolwr fod yno gyda chi i'ch helpu drwy'r amser.

Wedyn byddan nhw'n ymchwilio i'ch pryder ac yn rhoi gwybod ichi beth maen nhw wedi'i ddarganfod. Byddan nhw hefyd yn dweud beth maen nhw'n bwriadu ei wneud am y broblem.

Ar ôl hyn, os ydych chi'n dal yn anfodlon gallwch ofyn i'r Ombwdsmon edrych ar beth ddigwyddodd. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a gall edrych i weld a ydych wedi cael y gofal cywir.

**Y rhif ffôn yw 0845 601 0987 - cofiwch, gallwch ofyn i rywun eich helpu chi os ydych eisiau cysylltu â'r Ombwdsmon.**



ISBN 978 0 7504 6615 8

www.puttingthingsright.wales.nhs.uk

GIG CYMRU NHS WALES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

# Gweithio i Wella

## Lleisio Pryder am Wasanaethau Iechyd ar ôl 1 Ebrill 2011



©Hawlfraint y Goron 2011, 1 Hydref 2011

Gwybodaeth i Blant a Phobl Ifanc

## Helo!

**Mae nyrsys, doctoriaid a phobl eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth iechyd yn gwneud eu gorau i wneud yn siŵr eich bod yn cael y gofal cywir pan fyddwch chi'n sâl. Ond weithiau efallai y byddwch yn anfodlon â'r ffordd rydych wedi cael eich trin.**

**Lleisio pryder** yw siarad am rywbeth rydych yn teimlo'n anhapus amdano, neu rywbeth nad ydych yn ei hoffi, sy'n gwneud ichi deimlo'n grac/flin neu'n eich poeni chi.

Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrth rywun os ydych yn anhapus, fel y gallan nhw gywiro pethau.

Gallai'r pryder fod am:

- Y gofal neu'r driniaeth gawsoch chi
- Y man y cawsoch eich triniaeth fel lle'r doctor neu'r deintydd, ward mewn ysbyty neu ambiwlans
- Y bobl sydd wedi gofalu amdanoch



**Mae'r daflen hon yn esbonio beth i'w wneud os oes gyda chi bryder.**

Os oes gyda chi bryder, dywedwch wrth rywun cyn gynted â phosib. Yna gall y staff wneud eu gorau i ddatrys y broblem ar unwaith a gwneud newidiadau fel na fydd yn digwydd eto.

Ond beth os nad ydw i eisiau siarad â'r staff sy'n gofalu amdana i?

Os nad ydych chi'n teimlo fel siarad ag aelod o'r staff eich hunan, yna gofynnwch i'ch mam, eich tad neu'ch gofalwr.

Dw i ddim eisiau gwneud hynny - oes rhywun arall alla i siarad â nhw?

Oes! Cysylltwch â **Meic**, y llinell ffôn sy'n rhoi cyngor a chefnogaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru.

Nid yw'n costio dim a gallwch gysylltu unrhyw bryd drwy ffonio **080880 23456 neu anfon neges destun i 84001.**

Os hoffech chi wybod rhagor - ewch i **www.meiccymru.org.** Gall y bobl yno eich helpu chi i ddatrys eich pryder.

**Grêt!**

